

Canllaw i Rhieni/Gofalwyr i Gynhadleddau Amddiffyn Plant

Mae'r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

Gobeithio y bydd y daflen wybodaeth hon yn eich helpu i ddysgu mwy am Gynhadledd Amddiffyn Plant a pha ran y gallwch chi ei chwarae ynddi.

Rydym yn deall efallai eich bod yn bryderus ac yn ansicr ynghylch diben y gynhadledd a'r hyn a fydd yn digwydd er mwyn sicrhau bod eich plentyn/plant yn ddiogel rhag niwed sylweddol, ond mae'r Gwasanaethau Addysg a Phlant eisiau gweithio gyda chi i helpu i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel rhag niwed sylweddol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn sydd heb eu hateb yn y daflen wybodaeth hon, neu os nad ydych chi'n deall unrhyw beth, fe fydd Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn/plant yn gallu eich helpu.

Beth yw Cynhadledd Amddiffyn Plant?

Cynhadledd Amddiffyn Plant yw cyfarfod sy'n cael ei drefnu gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant pan fo ganddynt bryderon difrifol am ddiogelwch eich plentyn/plant, neu pan fyddwch chi neu rywun arall yn meddwl bod rhywbeth wedi digwydd sydd wedi achosi niwed sylweddol iddynt, a'i nod yw dwyn gweithwyr proffesiynol ynghyd i rannu gwybodaeth ac i gynllunio sut i helpu i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel rhag niwed sylweddol a rhoi cymorth i'ch teulu.

Mae'r gynhadledd yn defnyddio dull 'Arwyddion o Ddiogelwch' a fydd hefyd yn eich cynnwys chi. Fe ofynnir i chi beth yw eich barn chi, ac fe ofynnir i'ch plentyn/plant nodi beth maen nhw'n dda yn ei wneud, beth fydd yn eu helpu i'w cadw'n ddiogel, beth yw'r peryglon iddynt hwy a beth allai achosi niwed sylweddol iddynt.

Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn llunio adroddiad a fydd yn cynnwys y pryderon a pha gamau gweithredu sydd eu hangen, a bydd y cyfan yn cael eu rhannu gyda chi. Disgwylir y bydd asiantaethau eraill e.e. yr Heddlu neu ysgol eich plentyn/plant yn llunio adroddiad hefyd.

Bydd y gynhadledd yn ystyried y dystiolaeth o sut y mae eich plentyn/plant yn derbyn gofal, a bydd yn cynnwys unrhyw niwed sylweddol y maent yn ei ddioddef.

Ni all y gynhadledd gymryd eich plentyn/plant oddi wrthych chi, ond gall wneud awgrymiadau am sut y bydd pawb yn cydweithio i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel ac yn iach.

Ar ôl hyn rhaid iddynt benderfynu a ydi eich plentyn/plant mewn perygl o niwed sylweddol, a pha gymorth y gallai fod ei angen ar eich teulu i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel yn y dyfodol.

Os hoffech chi ragor o wybodaeth am 'Arwyddion o Ddiogelwch', gofynnwch i Weithiwr Cymdeithasol eich plentyn/plant.

Beth sy'n digwydd yn ystod y gynhadledd?

Dyma beth fydd yn digwydd:-

- Bydd y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod yn cwrdd â chi cyn y cyfarfod i egluro beth ddylai ddigwydd ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.
- Dylai gweithwyr proffesiynol eraill sy'n dod i'r cyfarfod ddarparu adroddiad sydd yn cynnwys gwybodaeth am sut y maent yn eich adnabod chi a'ch teulu a pham eu bod yn pryderu.
- Ar ddechrau'r cyfarfod gofynnir i bawb ddweud pwy ydynt a sut y maent yn ymdrin â chi a'ch teulu.
- Bydd Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn/plant yn esbonio sut y daethant i fod yn ymdrin â chi a'ch plentyn/plant a beth yw eu pryderon.
- Bydd pawb, gan gynnwys chi yn cael y cyfle i drafod y pryderon hyn, a gofynnir i chi a'ch plentyn/plant (os ydynt yn ddigon hen) beth yw eich barn.
- Bydd y Cadeirydd yn crynhoi'r drafodaeth a beth yw'r penderfyniadau.

Pwy fydd yn y gynhadledd?

Mae'r bobl sydd yn cael eu gwahodd fel rheol yn cynnwys eich meddyg teulu, nyrs ysgol, athro, cynrychiolydd o'r Heddlu a Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn/plant.

Os oes rhywun nad ydych yn dymuno iddynt gael eu gwahodd i'r gynhadledd, rhwch wybod naill i Weithiwr Cymdeithasol eich plentyn/plant neu Gadeirydd y Gynhadledd cyn y cyfarfod.

A allaf ddod a rhywun i fy nghefnogi?

Gallwch ddod â ffrind, perthynas, eiriolwr neu gyfreithiwr gyda chi i'r gynhadledd. Byddant yn gallu eich cefnogi, ond ni allant fynegi eu barn na bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad am berygl neu gynllunio.

Beth yw niwed sylweddol?

Gall niwed ddigwydd ar sawl ffurf. Mae'r gynhadledd yn ystyried pedwar prif grŵp ac mae'n gofyn i'r bobl sy'n ymdrin â chi os ydynt yn credu bod eich plentyn/plant wedi dioddef neu'n debygol o ddioddef 'niwed sylweddol'.

Beth all y gynhadledd benderfynu?

Bydd y gynhadledd yn penderfynu a oes angen cynnwys enw eich plentyn/plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant Sir Ddinbych, neu os ydynt eisoes ar y gofrestr, a ddylent aros arni neu a ddylid tynnu eu henwau oddi arni.

Beth yw'r Gofrestr Amddiffyn Plant?

Dyma restr o blant a phobl ifanc y teimlir eu bod mewn perygl o niwed sylweddol ac angen cael eu hamddiffyn yn Sir Ddinbych. Caiff y gofrestr ei chadw'n gyfrinachol a staff awdurdodedig yn unig a fydd yn cael gweld y wybodaeth arni.

Os ddaw'r gynhadledd i'r penderfyniad bod enw eich plentyn/plant angen cael ei roi ar y gofrestr, fe gytunir ar Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth Plentyn.

Beth yw Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth Plentyn?

Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth Plentyn yw cynllun ysgrifenedig o'r hyn sydd angen, a chan bwy i geisio sicrhau diogelwch eich plentyn/plant.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Os ydi enw eich plentyn/plant wedi cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, bydd grŵp bychan o bobl (a elwir yn Grŵp Craidd) yn cael eu ffurfio i sicrhau bod y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth Plentyn yn cael ei roi ar waith. Byddant yn gwirio bod pawb yn gwneud yr hyn y cytunwyd arno yn y cynllun a bod eich plentyn/plant yn ddiogel ac yn cael gofal priodol. Os bydd cyfarfod o'r fath yn cael ei gynnal, cewch eich gwahodd i fod yn bresennol a byddwch yn derbyn taflen wybodaeth a fydd yn egluro'r broses yn fwy manwl.

Pa mor hir fydd enw eich plentyn/plant yn aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?

Ar ôl tri mis, cynhelir cynhadledd arall (a elwir yn Cynhadledd Adolygu) a fydd yn penderfynu a ydi eich plentyn/plant dal i fod angen Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth, ac os ydynt, a oes angen newid y cynllun. Yna cynhelir Cynadleddau Adolygu o leiaf bob 6 mis, a byddwch yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol.

Os bydd y bobl yn yr adolygiad yn penderfynu nad yw eich plentyn/plant mewn perygl o niwed sylweddol mwyach, ac y byddant yn parhau i fod yn ddiogel heb unrhyw gymorth pellach gan bobl o du allan i'ch teulu, yna fe ddaw'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth Plentyn i ben a bydd enw eich plentyn/plant yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Beth fydd yn digwydd os nad yw enw eich plentyn/plant yn mynd ar y gofrestr?

Weithiau, bydd y gynhadledd yn penderfynu nad yw eich plentyn/plant mewn perygl o niwed sylweddol ac nad oes angen rhoi eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Os mai dyma fydd yn digwydd, gallai aelodau'r gynhadledd benderfynu bod eich teulu angen rhywfaint o gymorth, ac fe allent gytuno ar Gynllun Gofal a Chymorth. Bydd hyn yn golygu y bydd grŵp llai o bobl yn cwrdd yn rheolaidd gyda'ch teulu i sicrhau eich bod yn gwneud cystal ag y gallwch ac yn sicrhau bod eich plentyn/plant yn cael eu cefnogi nes na fyddan nhw na'ch teulu ei angen mwyach.

A allaf apelio os bydd enw fy mhentyn/plant yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant?

Gallwch, os ydych chi'n anghytuno yn gryf â phenderfyniad y gynhadledd gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, ni fydd cwyn o'r fath yn arwain at wrthdroi'r penderfyniad i wneud eich plentyn/plant yn destun Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth Plentyn, y cwbl y bydd yn ei olygu yw y bydd y gynhadledd yn cael ei gynnal eto.

Os ydych am apelio, cysylltwch â Chadeirydd y Gynhadledd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd.

Beth os ydw i am i'r gynhadledd gael ei chynnal yn Gymraeg neu unrhyw iaith arall?

Os felly, cysylltwch â'r Uned Diogelu cyn gynted ag y bo modd fel y gellir gwneud trefniadau. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn deall sut rydych yn teimlo ac yn gwybod beth sydd wedi bod yn digwydd.

Cwynion

Os ydych am wneud awgrym, canmoliaeth neu gŵyn am unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cwynion gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:-

| | | | |
|------------------|---|---------|--|
| Rhif rhadffôn: | 0800 032 1099 | E-bost: | ssdcomments@denbighshire.gov.uk |
| Ysgrifennwch at: | Swyddog Cwynion Ty Russell Ffordd Churton Y Rhyl Sir Ddinbych LL18 3DP | We: | sirddinbych.gov.uk/eichllais |

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn ieithoedd a/neu fformatau eraill ar gais.